# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Nos Fercher, Mai 25ain 2022 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Richards, Jean Roberts, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Geraint Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Euros Puw yn bresennol cytunodd Huw Charles i gadeirio'r cyfarfod.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 8fed 2022) - **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant - **DIM**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf – **NODWYD FOD Y MATERION WEDI CAEL SYLW GAN WEITHLU CYNGOR GWYNEDD.**

### iv) Gohebiaeth

a) Amrywiol.
i) Cylch yr Iaith – gwarchod enwau lleoedd Cymraeg – **CEFNOGWYD.**
ii) Newyddion Coedwig Genedlaethol i Gymru – **NODWYD GWRTHWYNEBIAD Y CYNGOR I'R BWRIAD O BLANNU COED AR DIR AMAETHYDDOL DA**.
iii) Cyngor Cymuned Llanuwchllyn – Cynllun Ardal Llanuwchllyn.
iv) Byd Mary Jones - diweddariad - **CYTUNWYD I OFYN A OEDD MODD CADW'R MAES PARCIO AR AGOR I'R CYHOEDD.**
v) Benthyg Cymru – cynllun newydd.
vi) Traffig Cymru – A494 gwaith cryfhau arglawdd Llanycil.

**v) Ceisiadau Cynllunio**
**NI CHYFLWYNWYD UNRHYW GAIS I SYLW'R CYNGOR.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Praesept - £2,250 **- CYDNABUWYD.**
b) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23 - **ROEDD CYNGOR GWYNEDD WEDI ARCHWILIO'R CYFRIFON A CHAFWYD CADARNHAD I SICRWYDD YN NHREFNIADAU LLYWODRAETHU A DATGANIADAU CYFRIFYDDU'R CYNGOR. CYTUNWYD I YCHWANEGU ENW HUW CHARLES I FANTOLEN Y BANC.**
c) Taliadau – Yswiriant **- CYMERADWYWYD.**
ch) Ceisiadau ariannol - Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, Kids Cancer Charity, Teenager Cancer Trust Cymru, Tŷ Gobaith **– NODWYD.**

### vii) Materion lleol.

a) **CYTUNWYD I ANFON Y CWYNION I'R ADRANNAU PERTHNASOL.**